# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHIFAU GORLLEWIN MORGANNWG

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 16 RHAGFYR 2016 AM 11.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D B Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynrychiolwyr o Ddinas a Sir Abertawe**

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|
| K E Marsh | P M Meara |

**Cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

**Y Cynghorydd**
D W Davies

**Cynrychiolwyr y Sefydliadau Cysylltiedig:**

A Dulley — Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| K Collis | Archifydd Sirol |
| G Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr J Dudley, P A Rees ac R V Smith L Miskell, J L Watkins, T McNulty, D Michael ac W John

8 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, ni ddatganwyd unrhyw fuddion.

9 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 16 Mis Medi 2016 yn gofnod cywir.

10 **MATERION YN CODI.**

Dywedodd yr Archifydd Sirol yn dilyn cofnod rhif 7 (Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd) fod amgylchedd yr ystafell ddiogel yn Sefydliad y Mecanyddion Castell-nedd wedi'i sefydlogi gyda chymorth dadleithyddion symudol.

Dywedodd y Cadeirydd yn dilyn cofnod rhif 7 (Partneriaeth Archifau Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg) y byddai'n ysgrifennu'n bersonol at Uwch Is-ganghellor Prifysgol Abertawe i gael barn y brifysgol ar rannu cyfleuster archifau.

11 **ADRODDIAD ARCHIFYDD Y SIR.**

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016.

**Defnyddio'r Gwasanaeth - Ystadegau mis Medi i fis Tachwedd 2016**

Nododd yr Archifydd Sirol y defnydd o'r gwasanaeth ar gyfer y chwarter gan nodi cefndir a sail resymegol yr ystadegau chwarterol.

Nododd na fyddai'r broblem bresennol gyda chofnodi ac adrodd ar ddefnydd ar-lein o gofrestri plwyfi Gorllewin Morgannwg yn berthnasol pan fydd nifer mawr o gofnodion WGAS ar-lein ym mis Mawrth ar wefan Ancestry. Bydd yr ystadegau newydd ar gyfer defnydd ar-lein o'r casgliadau yn cael eu datgan mewn cyfarfodydd o fis Mehefin nesaf.

**Arddangosiadau a Gwaith Allgymorth**

Adroddodd yr Archifydd Sirol am feysydd gwaith amrywiol y gwaith allgymorth y mae staff wedi bod yn rhan ohono yn ystod y cyfnod hwn.

Nododd gyfraniad y gwasanaeth yn y prosiect 'Visions of Steel', sy'n canolbwyntio ar hanes gwneud dur ym Mhort Talbot. Mae'r gwasanaeth, a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau, wedi creu 12 panel arddangos a arddangoswyd yn wreiddiol ym mis Hydref yn yr archifau ac maent bellach yn cael eu harddangos yn Ysgol Bae Baglan.

Dywedodd fod y gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau grant 100% gan Lywodraeth Cymru i greu arddangosfa deithiol sy'n cofnodi yn nhrefn amser y cyfraniad cadarnhaol y mae cymunedau amrywiol wedi'i wneud i Ddinas Abertawe yn ogystal â'i henw da am groesawu ffoaduriaid.

Dywedodd hefyd am gyfraniad y gwasanaeth i'r prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, 'Cynefin': Mapio’r Ymdeimlad o Le yng Nghymru a'i is-brosiect lleol 'Archwilio Coetiroedd Hynafol Gŵyr',

**Gwasanaeth Addysg**

Cyfeiriodd yr Archifydd Sirol at y gweithgareddau amrywiol a wnaed gydag ysgolion y ddau awdurdod yn ystod y chwarter.

**Hyfforddiant staff**

Nododd yr Archifydd Sirol ei fod wedi penodi dau Archifydd Dan Hyfforddiant, un wedi'i benodi am gyfnod o ddeufis drwy grant 90% gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda mewnbynnu data o gofrestri derbyniadau copi caled.

Cyfeiriodd at y cyrsiau hyfforddi y bu'r staff arnynt yn ystod y chwarter.

**Cyfarfodydd Proffesiynol a Gweithio Mewn Partneriaeth**

Cyfeiriodd yr Archifydd Sirol at y cyfarfodydd a hyfforddiant proffesiynol y bu staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter diwethaf.

**Casgliadau Archifau**

Cyfeiriodd yr Archifydd Sirol at y rhestr gynhwysfawr o archifau a dderbyniwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016 gan nodi bod y gwaith bron wedi'i gwblhau ar gynlluniau cadwraeth eraill o gasgliad Gwaith Haearn Mynachlog Nedd.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.45 am

**CADEIRYDD**